



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o *Cymru'n Cyddynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 42/2012

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau sy'n deillio o werthusiad dwy flynedd o'r gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyddynnu*, Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru, a'i heffaith.

Canfyddiadau:

- Cymerwyd camau breision gyda'r gwaith o gyflwyno *Cymru'n Cyddynnu* ers ei lansio yn 2009. Mae agwedd fwy cyfannol at gydlyniant wedi cael ei meithrin oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Mae holl awdurdodau lleol Cymru wedi ymgysylltu â'r agenda ac mae cannoedd o brosiectau lleol wedi cael eu cyflwyno mewn ymgais i gryfhau cydlyniant cymunedol yng Nghymru.
- Wynebwyd heriau amrywiol ar hyd y daith, a bu cynnydd cymysg yn achos rhai blaenoriaethau. Bu'r llwyddiant i brif-ffrydio cydlyniant oddi mewn i Lywodraeth Cymru yn amrywiol. Bu'r ymrwymiad i'r agenda yn gyfyngedig ymhlith rhai awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd mae'r systemau ar gyfer monitro cydlyniant yn wan.
- Mae'r ffactorau sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant yn cynnwys ymrwymiad lefel uchel oddi mewn i Lywodraeth Cymru, dealltwriaeth glir o gydlyniant cymunedol yng Nghymru, cynhyrchu cynllun gweithredu i gefnogi cyflwyno, creu uned gydlyniant benodedig oddi mewn i Lywodraeth Cymru, y Gronfa Cydlyniant Cymunedol, a fu o gymorth i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynllun, a gwaith swyddogion cydlyniant cymunedol ar lefel leol.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Cyflwyno Cymru'n Cyd-dynnu

Lansiwyd *Cymru'n Cyd-dynnu* ym mis Rhagfyr 2009. Sefydlwyd yr Uned Cydlyniant Cymunedol yn Llywodraeth Cymru, a rhoddwyd iddi'r dasg o oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth, gyda chynllun gweithredu cysylltiedig i dywys y gwaith hwnnw. Bu awdurdodau lleol yn arwain y gwaith o hybu cydlyniant cymunedol ar lefel leol, gan dderbyn dyraniad blynyddol o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i gefnogi eu hymdrechion.

Yr Uned Cydlyniant Cymunedol

Wynebodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol amrywiol heriau, ond cyflawnwyd mwyafrif amcanion y cynllun gweithredu yn llwyddiannus. Bu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn allweddol i'r llwyddiant hwn, gan dynnu sylw pob un o'r 22 awdurdod lleol a'u hannog i ymgysylltu â'r agenda gydlyniant. Bu'r Uned Cydlyniant Cymunedol hefyd yn hysbysu, yn tywys, yn darbwylo ac yn herio cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r agenda, er bod rhai wedi parhau yn amheus ynghylch ei pherthnasedd i'w gwaith.

Cyflwyno Cymru'n Cyd-dynnu ar lefel Leol

Roedd y ffactorau hanfodol ar gyfer cyflwyno'r agenda gydlyniant yn effeithiol ar lefel leol yn cynnwys swyddog cydlyniant cymunedol penodedig, mapio anghenion a blaenoriaethau lleol a chynllun gweithredu neu strategaeth cydlyniant cymunedol. Gwnaed peth cynnydd o ran prif-ffrydio cydlyniant, ond roedd staff mewn rhai meysydd polisi yn dal yn ansicr ynghylch perthnasedd cydlyniant cymunedol i'w gwaith.

Bu'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn gatalydd ar gyfer gweithgareddau mewn llawer o ardaloedd, gan roi cymhelliad ariannol i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r agenda gydlyniant. Yn nodweddiadol, roedd awdurdodau gwledig yn ymgysylltu â'r agenda i raddau llai, a'r trefi mawr a'r dinasoedd oedd yn tueddu i ymgysylltu fwyaf.

Ymyriadau Lleol ac Effeithiau

Dyrannwyd y Gronfa Cydlyniant Cymunedol i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a chefnogwyd dros 600 o brosiectau lleol rhwng 2009/10 a 2011/12. Defnyddiodd awdurdodau lleol y Gronfa mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai yn cefnogi nifer fawr o

brosiectau bach, ac eraill yn dyrannu'r rhan fwyaf o'r Gronfa i un neu ddau brosiect.

Yn nodweddiadol, roedd y prosiectau'n cyfateb i flaenoriaethau cydlyniant cymunedol lleol, ond nid oedd hynny'n wir bob tro. Mewn rhai achosion, ymddangosai fod y Gronfa Cydlyniant Cymunedol yn cael ei gweld fel ffynhonnell arall o arian grant yn unig.

Dadansoddwyd deg o brosiectau astudiaethau achos, gan ddarparu tystiolaeth o ychwanegolrwydd. Gellir crynhoi cyflawniadau prosiectau'r astudiaethau achos o dan bedwar prif bennawd:

- hybu ymatebolrwydd ymhlith darparwyr gwasanaethau i flaenoriaethau cydlyniant
- hybu dealltwriaeth rhwng gwahanol grwpiau, megis yr hen a'r ifanc
- cymorth i integreiddio ar gyfer newydd-ddyfodiaid, i'w helpu i ymdopi â'u bywyd newydd yng Nghymru
- rheoli tensiynau rhwng gwahanol grwpiau a datrys gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg.

Argymhellion

Bydd cynnal yr enillion a sicrhawyd trwy gyflwyno *Cymru'n Cyd-dynnu* a goresgyn rhai o'r problemau mwyaf ystyfnig sydd wedi llesteirio cynnydd yn galw am y canlynol:

- ymrwymiad parhaus i'r agenda gan Lywodraeth Cymru
- tîm penodedig yn Llywodraeth Cymru i arwain ym maes cydlyniant cymunedol
- adnewyddu'r cynllun gweithredu cydlyniant cymunedol
- neilltuo arweinwyr cydlyniant cymunedol penodedig ledled Cymru
- casglu data canfyddiadau ynghylch cydlyniant cymunedol ar lefel leol a chenedlaethol
- mwyafu'r cysylltiadau rhwng amcanion cydlyniant a rhaglen Cymunedau'n Gyntaf

Awduron:

David Robinson, Kesia Reeve, Deborah Platts-Fowler, Steve Green, Aimee Walshaw, Elaine Batty a Nadia Bashir

Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol Prifysgol Sheffield Hallam

ISBN: 978-0-7504-8609-5